

Eddie Ladd – Llywelyn

Mae'r testun hwn o <http://www.bbc.co.uk/education/guides/zp2pn39/revision/4>

Llais: So, bant â ni Dafydd ap Gwilym.

Eddie Ladd: Enw fi yw Eddie Ladd a dwi'n neud Theatr Dawns aml gyfryngol bysen i'n gweud. Ma hwnna'n golygu bo fi'n creu dawns ond bod e'n cael 'i gyfryngu mewn nifer o ffyrdd. Dwi'n gweithio at gamra'n aml iawn, ry'n ni'n gweithio gyda sgrin las yn aml 'fyd. Ma 'na wastad criw o bobl rownd i'r unawdydd, sef fi bob tro, dyw e byth yn unawd ar ei ben ei hunan.

Felly, co ni, traethawd ar gered, lle fi'n mynd i dreial ailarddel hanes Cymru trwy gyfrwng dawns a dadansoddi symud. Wel...

Ers canol y 90au dwi 'di mynd i'r afael â beth yw Cymreictod a ble mae Cymru o fewn Prydain a beth yw goblygiadau seicolegol byw ym Mhrydain. Dwi'n meddwl, nôl yn yr 80au, o'n i'n Brydeinwraig – o'n i'm yn gwbod 'ny ond o'n i'n Brydeinwraig. Nawr dwi wedi dechre meddwl beth yw hi i fod yn Gymraes, wedyn ma'r darn s'da fi ar hyn o bryd - ma fe'n mynd i ymrafel â hanes Cymru a gweud bod e'n neud hanes Cymru ma fe. 'Na beth yw mhwno i'n bendant, eith hwnna mlan am flynydde dwi'n meddwl.

'Na beth fi'n neud pan dwi'n dod mewn i'r stiwdio ac yn meddwl, "Beth ddiawl 'na i, beth alla i neud? Alla i ddim meddwl am ddim byd." Ma'r system sy 'da fi, dwi 'di dysgu fe wrth rhywun, ma nhw'n gweud, "Gwranda ar y negeseuon." Ti jyst yn gadel dy unan i fod am sbel ac yn gobeithio am ddim byd, does 'na ddim gobaith cael gwaith symud o gwbl. 'Na beth sy'n digwydd wedyn ar ôl sbel fach, ma'r corff yn dechre symud, falle ddim yn dda ond sdim ots ambutu hynny. Chi jyst yn dechre, "W! Dwi isie neidio, w dwi isie syrthio. Dwi'n ishte, beth dwi'n neud wedyn? Gwrando? Fi'n mynd i rowlo, dwi'n mynd i godi, ma 'na – wff – cic yn mynd i ddod fanna. 'Na beth i beido neud mewn ffordd yw edrych ar y gair a meddwl shwt ma dylunio'r gair neu rhoi llun gyda'r gair. Ma'r ddou beth yn gweithio ochr yn ochr i weud y gwir. Ambell waith ac yn aml iawn i weud y gwir dwi'n ffindio ma'r gwaith corfforol yn dod gynta.

O'n i'n ffilmo'n hunan i weud y gwir ac o'n i'n treial dethol beth o'n i'n meddwl o'dd yn symudiade 'ôl-reit', pethe o'n i ddim â cywilydd dangos nhw i'r cyhoedd. O'r broses 'na dath y symudiade hyn lle o'n i'n troi a neud fel hyn, fel

hyn, mas a lan, lawr, troi 'to. Weles i rhein ar ddarn lle o'n i wedi gweitho gyda'r camra so biges i un am un am un. O'dd hwn yn bod cyn bod y testun yn bod.

Ma'r broses gorfforol yn helpu fi feddwl. Chi'n cal syniade fel bo chi'n symud bron, ma nhw'n codi wrth bo chi'n gneud. A wedyn, y'ch chi'n dod at y pwynt wedyn lle chi'n meddwl reit, shwt ma ffurfio'r syniade 'ma, beth yw'r drefen, beth yw'r strwythur? A 'na pryd ambell waith ma'r testun yn dod mewn iddo fe achos ma'r testun wedyn yn cynnig strwythur, ma fe'n cynnig rhyw fath o ffordd o feddwl i chi'n naturiol wedyn. Ond bysen i'n dueddol o weud ma'r corff sy da fi gynta, wedyn ma'r strwythur yn dod trw'r geirïe a trw gofynion y testun wedi 'ny.

Llais:

Ry'n ni nawr yn chware'r ddwy ran, y Dioddefwr a'r Ergydiwr. S'dim isie neb ar y tu fas. Ma hunan gasineb yn ein gyrru ni i ymdrechu at berffeithrwydd tra bo ni'n crefu am ollwng trwy lif pridd.

Eddie Ladd:

Ma 'na un esiampl, o'dd testun 'da fi, o'dd e di dod â'i din gynta, dath y testun gynta wedyn dath y gwaith symud ond o'n i'n gwobod mai 'llifo' odd hanfod y cyfnod 'na achos odd Llywelyn wedi gorfod ildio i Edward y Cynta. O'n i'n meddwl, reit beth yw ildio? Wel ma fe'n llorweddol, y'ch chi ddim yn ddiymadferth ond dos 'na ddim, dy'ch chi ddim yn ffurfio, dy'ch chi ddim yn gryf, dy'ch chi ddim ar eich trâd. So, unwaith o'n i 'di penderfynu na, o'dd Luke, y gŵr camra, yn rhoi'r camra arna i a gweud, "Reit, os rhoi di dy drôd mewn fan 'na ma fe'n edrych yn dda os wyt ti'n ymestyn fan na." So, o'n i'n gweitho rywfaint ac o'dd e'n gweud, "Oce, ma hwnna'n dda, ma honna'n ôl-reit, dyw hwnna ddim yn gweitho," so fel 'na naethon ni weitho 'na a 'na shwt ma'r berthynas rhyngddo fi a fe wedi datblygu i weud y gwir. Ry'n ni wedi bod yn creu'r gwaith gyda'n gily'.